Rhan 1

Beth yw chwarae

Yn ôl Play Wales (2014) chwarae yw broses sydd yn ddigymell ac actif, yn y modd o feddwl, teimlo a gwneud. Pan mae plant yn chwarae, mae rhyddid ganddyn nhw i fod yn greadigol a dychmygol (Play Wales, 2014). Noda Encyclopedia of Children's Health (dim dyddiad), bod chwarae yw'r gwaith y plant. Mae'n weithgaredd sydd yn cael i wneud o'i diddordebau nhw ei hun, mae'n hwylus a digymell iddyn nhw.

Mae chwarae yn rhoi'r gallu i blant i gysylltu â'r byd o gwmpas. Mae ailadrodd digwyddiadau yn gwneud i blant ymestyn a gweithredu eu teimladau a ffantasiâu. Mae hyn yn gadael i blant i ddod i dermau gyda rhyfeddodau'r byd (Play Wales, 2014). Yn ôl McInnes, et al. (2013) mae barn plentyn am chwarae yn canolbwyntio ar gynllun sylwgar. Ond yn bwysicaf, mae chwarae yn rhoi cipolwg o'r ansawdd mewnol y plentyn sydd yn bwysig ar gyfer dysgu, sef chwarae.

Pam mae chwarae yn bwysig?

Mae chwarae yn hanfodol i blant er mwyn tyfu a datblygu, mae'n bwysig i bob plentyn, does dim ots am ei ymddygiad neu ei anghenion. Dywed NHS (2018), "nid dim ond hwyl yw chwarae, ond mae'n ffordd gorau i blant ifanc i ddysgu." Trwy chwarae mae plant yn ymarfer sgiliau sydd angen arnynt i dyfu. Yn ôl Play Wales (2014), mae chwarae yn bennaf i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol y plentyn. Mae chwarae i blant yn un o'r mathau pwysig yn eu bywydau, oherwydd chwarae yw beth mae plant yn gwneud o ddydd i ddydd. Nid oes llawer iawn i'w wneud gydag oedolion. Pan mae oedolion yn ymyrryd, mae'n gallu fod yn broses niweidiol ddifrifol (Play Wales, 2014). Wrth edrych at y cylch, mae'n bosib bod oedolion gallu torri'r clych. Mae hyn gallu digwydd os mae'r oedolyn yn dymuno ymuno mewn neu angen rheoli'r chwarae. Mae hyn yn ymyrryd yn chwarae plant, sydd ddim yn gadael iddyn nhw fod mewn rheolaeth o'i chwarae.

Awgryma Early Years Matters (dim dyddiad) bod dysgu trwy chwarae yn datblygu sgiliau iaith, emosiwn, creadigaeth, cymdeithasol a deallusol y plentyn. Mae dysgu trwy chwarae yn arwain i blant i chwarae yn naturiol heb gymorth o oedolion, er hynny, nid yw hyn yn bosib i rai plant. Mae gan blant amrywiaeth o chwarae, er enghraifft, gwahanol amgylchiadau sef chware tu mewn neu chwarae tu allan.

Beth yw rôl chwarae hunan-gyfeiriedig?

Dywed Pop Up Play Adventures (2015) bod rôl chwarae hunan gyfeiriedig yw caniatáu plant i chwarae heb fframwaith penodol. Mae'r term yma yn golygu bod y plant yn chwarae ar ben ei hunain heb unrhyw ymyrraeth oddi wrth oedolion. Mae chwarae hunan-gyfeiriedig yn cael i ddiffinio fel dewis rhydd, wedi'i gyfarwyddo'n bersonol a chymell naturiol. Pan fydd plant yn chwarae yn y ffordd yma, mae'n annog nhw i ddatrys problemau ei hun sydd yn help tuag at ei datblygiad i'r dyfodol (Pop Up Play Adventures, 2015). Mae hefyd yn helpu'r plant i feddwl am y byd ar ford y mae'n gweithio, sy'n seiliedig â diddordebau'r unigolyn (Pop Up Play Adventures, 2015).

Awgryma Little Big Red Dot (2018) bod chwarae hunan cyfeiriedig yn datblygu llawer o sgiliau gwahanol i blentyn. Un sgil sydd yn datblygu trwy chwarae hunan cyfeiriedig yw meddwl yn greadigol a datrys problemau. Mae'r math yma o chwarae yn gadael i blant i feddwl tu-allan o'r bocs, i feddwl am sut i ddatrys y broblem. Er enghraifft, datrys brwydr dros yr un tegan neu greu rheolau am gêm newydd. Mae'n annog plant i ddatrys y broblem ar ben ei hun a chyfathrebu gyda ffrindiau i ddod o hyd i ddatrysiadau. Wrth i blant chwarae, maen nhw'n datblygu'r sgil gwaith tîm a sgil cymdeithasu. Trwy chwarae sydd heb strwythur, mae'r plant yn dysgu sut i weithio o fewn tîm, rhannu a sut i greu ffrindiau.

Mathau o chwarae – sut mae'r math o chwarae yn cefnogi datblygu cyfannol plant?

Chwarae cyfannol yw arbrofi gwahanol fathau o offer mewn ffurf wahanol a symud nhw o amgylch yr amgylchedd sydd yn ddiogel. Mae'n seiliedig ar chwilfrydedd, a datblygiad y plentyn i arbrofi ac archwilio ei hun. Rhai enghreifftiau o chwarae cyfannol yw: chwarae â bocsys gwag, llestru cegin, defnyddiau rhydd neu ddillad o'r fasged golch (Early Impact, dim dyddiad). Wrth i blant chwarae yn gyfannol, mae'n datblygu datblygiad cyfannol y plentyn. Un sgil sy'n cael i ddatblygu yw'r sgiliau cymdeithasu a rhyngbersonol plentyn, gan ei fod yn cymdeithasu a rhyngweithio gyda'i chyfoedion. Wrth chwarae cyfannol, mae'r plentyn yn dysgu am werth, amynedd a chydraddoldeb wrth rannu teganau a ysgriffennu (First Walkers, 2016).

Un math o chwarae cyfannol arall yw basgedi trysor, mae'r rhain yn cael i ddefnyddio er mwyn i blant dysgu a datblygu. Mae'r basgedi yma yn cefnogi datblygiad a chwilfrydedd trwy gyffwrdd, arogli, clywed ac ysgogiad gweledol. Mae basgedi trysor yn cefnogi babi neu blant i reoli dysgu ei hunain a gwneud dewisiadau am ei chwarae (Sensory Treasures, dim dyddiad).

Sut mae oedolion gallu cefnogi chwarae hunan-gyfeiriedig?

I gefnogi chwarae hunan-gyfeiriedig plentyn, mae rhaid cefnogi creadigaeth o'r ardal chwarae. Mae angen i'r ardal chwarae cwrdd ag anghenion plentyn ac sydd yn gallu cael i addasu ganddyn nhw. Mae'n bwysig bod oedolion ddim yn ymyrryd yn chwarae'r plentyn, mae angen iddyn nhw gael profiad o heriau ac ansicrwydd. Mae rôl gan oedolion o fewn chwarae hunan-gyfeiriedig i arsylwi chwarae ac ymateb at giwiau yn ôl camau'r cylch chwarae (National Occupational Standards, dim dyddiad). Ciwiau chwarae yw rhywbeth mae'r plentyn yn ei wneud wrth chwarae, er enghraifft, iaith y corff neu gyswllt llygaid (Children's Scrapstore, 2013). Un enghraifft o giw chwarae plant yw pryd mae plentyn yn cadw cyswllt llygaid gyda rhywbeth maen nhw'n angen gwneud neu rywun maen nhw eisiau chwarae gyda.

Mae gwneud amgylchedd diddorol yn bwysig i blant yn y Cyfnod Sylfaen, mae'n rhoi cefnogaeth iddyn nhw i ddatblygu ym mhob ardal ac i ennill annibyniaeth yn yr ysgol. Mae angen creu ardaloedd sydd yn hygyrch ac sydd yn cwrdd ag anghenion a galluoedd plentyn. Mae rhoi rhyddid i blant i ddysgu ac arbrofi gan ddefnyddio adnoddau sydd annog ymestyn dysgu (Early Years Matters, 2015). Mae angen i'r amgylchedd cwrdd â'r saith ardal o'r Cyfnod Sylfaen (Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, 2015) sef, datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol, iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad corfforol.

Rhan 2

Pam mae risg yn buddiol i blant?

Mae chwarae risg yn fuddiol i blant gan ei fod gallu ymestyn sgiliau, dyblygu'n gorfforol ac emosiynol, a herio ei hun yn ffurfiau newydd. Mae bod yn ddewr a gorchfygu ei ofn yn bwysig i blant ac mae'n arwydd o dwf y plentyn (Play Wales, dim dyddiad). Noda Blincoe (The Guardian, 2015) bod risg yn hanfodol i blentyn i gael plentyndod sy'n cytbwys. Mae chwarae risg yn gadael i blant dysgu am gryfderau a chyfyngiadau corff ei hun wrth gael risg sy'n gorfforol ac sy'n galluogi plentyn i gael profiad o arswyd. Hawlia Early Years Resources (2018) bod chwarae risg yn caniatáu plant i herio ei hunain ar bob lefel. Un lefel mae plant yn cael i herio yw yn gorfforol, gan ddringo yn uwch, rhedeg yn gyflymach a neidio ymhellach. Mae lefel emosiynol plentyn hefyd yn cael i herio, gan ei fod allan o reolaeth neu mae'r plentyn yn dod dros ei ofn. Yn olaf lefel meddyliol, mae hyn yn herio plentyn wrth ddysgu sut i fod allan o drwbl, dysgu ffiniau ei hun a'r amgylchedd o'i hamgylch. Yn ôl Playful Childhoods (dim dyddiad) meddai Tim Gill bod plant yn cael eu gyrru'n gryf i ddod i'r afael â phobl, lleoedd a'r pethau o'i hamgylch. Mae hyn yn adeiladu hunain hyder a'r modd y maen nhw'n alluog ynddo.

Yn Sgandinafia, mae dysgu a chwarae tu-allan yn un o'r prif adnodd i blant i ddysgu a chwarae, er enghraifft, mewn ysgolion coedwig (Teach Early Years, dim dyddiad). Mae ysgolion coedwig yn caniatáu plant i gymryd risg ac ymgeisio gwneud heriau newydd sydd ddim yn cael i wneud yn ardal sydd tu-fewn. Mae'r ysgolion coedwig yn galluogi plant i gymryd risg ac yn dysgu nhw sgiliau goroesiad ac iddyn nhw ddysgu am y byd o'n gwmpas, hynny yw dringo coeden neu adeiladu tân. Er bod y plant yn dysgu tu-allan, nad yw'r tywydd yn cael effaith ar yr ysgolion coedwig (Early Years Careers, 2015). Mae'r dull Sgandinafia yn cefnogi gwaith Frobel, ysbrydoledig i ddechrau system Kindergarden. Roedd Frobel angen i'r system yma cael amgylchedd yr oedd yn naturiol ac yn rhoi profiadau i blant ifanc i ddatblygu a dysgu tu-allan (Teach Early Years, dim dyddiad). Mae'r dull ysgolion coedwig hefyd yn cael i gefnogi gan y damcaniaethwyr canlynol, Steiner, Vygotsky, Montessori a Dewey. Mae'r damcaniaethwyr yn rhoi'r plentyn yn y canol o addysg ei hun ac yn siarad am bwysigrwydd o'r gallu i arbrofi'r byd a chymryd risg gyda'r gefnogaeth addas (Forest School Training, dim dyddiad). Dywed Muddy Days (2020) bod ysgolion coedwig a chwarae tu-allan yn codi hyder plentyn, wrth fod yn rhydd, cael amser a chael lle i ddysgu. Mae'r profiad yma yn rhoi cyfle i blentyn i ddangos annibyniaeth, wrth iddyn nhw gyfathrebu a datrys problemau ei hun. Mae'r ysgol coedwig ar awyr agored hefyd yn datblygu sgiliau cymdeithasol, Mae gweithgareddau fel rhannu ofer a chymryd rhan yn chwarae i helpu dysgu plant i weithio fel tîm, sydd yn cryfhau cyfeillgarwch.

Sut ydyn ni'n cydbwyso datgelu plant i risg tra cadw nhw'n ddiogel rhag niwed?

Awgryma Playful Childhoods (dim dyddiad) bod gwneud pethau rhy ddiogel yn cymryd i fwrdd profiadau sy'n gorau i helpu nhw ddysgu am sut i gadw eu hunain yn ddiogel ac yn iachus. Mae yna gymaint o blant yn y blynyddoedd cynnar yn dioddef â phroblemau emosiynol a cymdeithasol, mae'n bwysig bod yna cytbwys addas i'r plant. Dywed Play Wales (dim dyddiad) wrth gynllunio a darparu profiadau sy'n cynnwys risg, mae'n bwysig i beidio dileu

unrhyw ffurf o risg. I ddarparu dull cytbwys o risg mae angen edrych ar y risgiau ar fuddion o chwarae risg. Dylid pob lleoliad ysgrifennu asesiad risg am ei safle. Yn ôl Play Wales (2018), asesiad risg buddiol yw pryd mae darparwr yn ystyried y ddyletswydd sydd ganddyn nhw i ddiogelu plant o niwed difrifol. Mae hefyd gan ymarferwyr dyletswydd i ddarparu cyfleoedd chwarae ysgogol, chwarae anturus i adael i blant i gymryd risgiau pan fyddent yn chwarae heb eu rhoi mewn perygl gormodol o niwed difrifol. Mae yna fuddion i gynnig plant ysgogol, amgylcheddau heriol ar gyfer archwilio a datblygu eu galluoedd.

Noda Play Wales (2018) mae defnyddio dull cytbwys o reoli risg gydag unigolion sydd ag atgasedd i risg, ac efallai wedi bod yn amddifadu plant o gyfleodd y gellid eu hystyried yn fuddiol yn ddatblygiad plant. Yn Gymru mae'r llywodraeth (2010) yn gosod dyletswydd ar bob awdurdodau lleol i asesu a sicrhau bod llawer o gyfleodd i blant yn eu hardal. Dywed Health and Safety Executive (2012) bod y cyfreithiau iechyd a diogelwch weithiau yn cael i gyflwyno fel rheswm pam mae chwarae yn benodol a dylid annog plant a phobl ifanc i wneud gweithgareddau hamdden. Gellir cael rhwystredigaeth gyda'r gwaith papur, a chamddealltwriaeth ynglŷn â'r hyn sydd angen ei chael ei wneud i reoli risgiau sylweddol. Mae cael cytbwys rhwng diogelu plant o risgiau mwyaf difrifol a chaniatáu nad yw bob amser yn hawdd iddynt elwa ar fanteision chwarae. Nid yw'n ymwneud â dileu risg na ymwneud â dulliau cymhleth o gyfrifo risgiau neu fanteision. Mae chwarae yn ffordd ddiogel a gweithgaredd buddiol, ond mae barn synhwyrol oedolion yw'r cyfan. Mae'n ofynnol i gael barn oedolion i gael manteision gorau i blant wrth sicrhau nad ydynt yn agored i risg ddiangen. Mae angen i gydbwyso risgiau ar fuddio wrth gynllunio a darparu cyfleoedd a gweithgareddau.

<u>Rhan 3</u>

Manteison a chyfyngiadau'r offeryn arsylwi

A yw'n rhoi darlun cyfanol o'r plentyn neu a yw'n canolbwyntio ar un maes yn unig? Beth yw cryfderau a chyfyngiadau hyn?

Awgryma Nursery World (2006) bod arsylwi yn cael i wneud yn amgylchedd dysgu o safon uchel, sydd tu fewn a thu allan. Mae'n hanfodol arsylwi plant yn ddigwyddiadau naturiol ac o fewn chwarae hunan cyfeiriedig. Dywed Resources for Early Learning (dim dyddiad) bod arsylwi plentyn yn bwysig i gynhyrchu gwybodaeth bwysig ynglŷn â'i galluoedd, ei chryfderau a gwendidau. Mae arsylwi yn helpu i weld twf a datblygiad plentyn yn gwahanol ardaloedd, er enghraifft, gwybyddol, corfforol, modur, iaith, cymdeithasol a dulliau dysgu. Maen hefyd yn helpu i ymarferwyr i gynllunio cwricwlwm sy'n addas i alluoedd plentyn a gweld os mae angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol arnynt a phenderfynu a oes angen gwasanaethau ymyrraeth neu gymorth (Resources of Early Learning, dim dyddiad).

Yn ôl Teach Early Years (dim dyddiad) cyn dechrau unrhyw arsylwad ar blentyn, mae rhai bod yn ymwybodol am pam mae'r plentyn yn cael i arsylwi, er enghraifft, arsylwi plentyn am ei ddatblygiad o fewn lleoliad newydd. Mae arsylwi yn cynnwys edrych a gwrando ar blentyn i weld sut mae o'n datblygu, beth maen nhw'n hoffi gwneud a beth maen nhw'n dysgu (Early Years Matters, dim dyddiad). Un dull o arsylwi plentyn yw olrhain amser. Dywed We B Anywhere (2019) bod olrhain amser yn ffordd i weld beth mae'r plentyn yn gwneud mewn cyfnod o amser. Mae'r ffurf yma o arsylwi yn gallu cael i wneud ar gyfwng cyson. Mae'r

arsylwadau yma yn fyr ond mae'n cynnwys y gweithgaredd mae'r plentyn â diddordeb ynddo ar ardal maen nhw'n hoffi yn y lleoliad. Mae'r math yma o arsylwi yn recordio lefel o ddiddordeb sydd gan y plentyn mewn gweithgareddau. Er enghraifft, efallai y daw'n amlwg os mae'r plentyn yn gwario llawer o amser yn ardaloedd o'r lleoliad ond yn trwy'r amser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu (Teach Early Years, dim dyddiad).

Awgryma Kanopy Streaming (dim dyddiad) bod yr olrhain amser yn ddull defnyddiol i arsylwi plentyn. Mae'r math hyn o arsylwi yn helpu ymarferwyr gweld ymddygiad plentyn a gweld beth mae'r plentyn yn gwneud trwy gydol y dydd. Hefyd, mae'r olrhain amser yn canolbwyntio ar ran penodol o ymddygiad plentyn, sydd yn dangos amlder o'r ymddygiad. Mae'r dull yma yn ffordd dda i ganolbwyntio ar weithgaredd sydd yn cynnwys grŵp o blant. Efallai'r gweithgaredd yw defnyddio adnodd penodol, er enghraifft, llyfr i werthuso'r ddarpariaeth briodol. Ar y llaw arall, mae Kanopy Streaming (dim dyddiad) yn dweud ei fod y dull yma yn golygu bod yr ymarferwyr yn cael i glymu i wylio'r cloc. Mae hefyd yn golygu bod yr ymarferwyr yn cael eu cyfyngu i gofnodi digwyddiadau sy'n digwydd yn y cyfnod penodol yn unig.

Hawlia Aussie Childcare Network (2016), wrth arsylwi plant mae'n bwysig defnyddio gwahanol ddulliau o arsylwi sy'n cynnwys dysgu straeon, ffotograffau a samplau o waith. Mae defnyddio llawer gwahanol ddulliau o arsylwi yn help i arsylwi diddordeb, sgiliau, galluoedd ac anghenion plentyn. Mae arsylwi plentyn yn darparu sylfaen ar gyfer asesu a chynlluniad unigol plentyn. Mae casglu cyfres o arsylwadau cyn dehongli a chynllunio yn rhoi darlun cyflawn a chyfannol o'r plentyn.

Rhan 4

Wrth arsylwi ac asesi plant, pam mae chwarae'n bwysig? A yw arsylwi plant mewn chwarae yn rhoi adlewyrchias mwy cywir i ni o ble maent yn eu datblygiad? Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Yn ôl McInnes et al. (McInnes, 2011, p. 121-122) dylid arsylwi plant trwy gyweddu â chwarae a dysgu, a rhyngweithiad sydd yn rhannu â datrys problemau gan ddefnyddio cwestiynau agored a meddwl yn barhaus. Mae Howard a McInnes (2012) yn awgrymu bod chwarae yn datblygu lles emosiynol plentyn. Fe wnaeth Howard a McInnes (2012) gwneud ymchwil i gefnogi polisiau chwarae ac arfer ymarferwyr. Fel canlyniad o'r ymchwil mae lefelau o lles emosiynol y plant yn well wrth chwarae nag yn gweithgaredd oedd llai fel chwarae. Mae chwarae gallu fod yn rhywbeth mewnol am sut mae plentyn yn gweld chwarae. Wrth arsylwi a asesu plant wrth chwarae, mae ymarferwyr yn gallu gweld datblygiad sydd yn fwy holistaidd a cyfranogiad y plentyn yn y chwarae. Roedd ymddydiad y plant yn dangos bod yn gweithgareddau 'fel chwarae', roedd y plant yn canolbwyntio mwy ar y gweithgaredd, gwenu yn fwy ac yn cael mwyd rhyddid. Ar y llaw arall, roedd ymddygiad y plant yr oedd yn cymryd rhan yn 'dim fel chwarae', yn dynnu sylw oddi ar y gweithgaredd ac er bod yn gallu symyd ei chorff, roedden nhw'n tueddu i aros yn eu cadair. Mae plant yn arwain y cyfeiriad chware, ac mae'n rhoi ymreolaeth ac annibyniaeth sydd yn codi hyder (Howard a McInnes, 2012).

Mae study queires (dim dyddiad) yn argyhoeddedig fod theori Piaget a Vygotsky yn dangos bod yna gwybodaeth ddyfnach am yr ymennydd, datblygiad gwybyddol ac mae llawer o

ddulliau o ddysgu wedi datblygu i helpu i ymgyfarwyddo dulliau ac arferion addysgu. Roedd theori Piaget wedi darganfod bod yr amgylchedd o amgylch y plentyn yn dylanwadu ar y ford maen nhw'n datblygu a deall beth sydd yn mynd ymlaen o'i gwmpas. Dysgodd dros amser bod plant â chysyniadau sylfaen o amser, rhifau a'r lle o amgylch. Dyma'r strwythur sylfaenol ar gyfer popeth arall a dysgwn trwy gymdeithasu, amgylcheddol a chyffwrdd. Yn debyg i Piaget, roedd theori Vygotsky yn canolbwyntio ar ford mae rhyngweithiadau cymdeithasol ac atodiadau i lywio ei ddealltwriaeth. Dysgodd hefyd fel Piaget bod plant o oedran cynnar â'r gallu i siarad ac ysgrifennu ac i ddatblygu galluoedd meddwl uchel. Mae'r theori yma yn boblogaidd gan ei fod yn cael i arwain gan blant. Mae'n ddamcaniaeth sy'n ysbrydoli ac yn dyrchafu dysgu cyd-destunol, dan arweiniad y plentyn fel dysgwr gweithredol. Mae llawer i syniadau dysgu sydd yn seiliedig a chwarae yn deillio o'r damcaniaeth hon. Dywed kids devlopment (2018), roedd Freud yn credu bod pob cam o ddatblygiad plentyn sy'n dechrau ar enedigaeth yn uniongyrchol gysylltiedig ag anghenion a gofynion penodol, pob un yn seiliedig ar ran benodol o'r corff. Er mwyn deall hanfodion ei gamau datblygu. Credai bod Freud for y ford y mae rhieni'n trin eu plant yn ystod pob un o'r camau yn cael effaith ddofn a pharhaol ar ddatblygiad cyffredinol seiciatreg y plentyn.

Sut mae oedolion gallu cefnogi hyn?

Dywed (Early Years Matters, dim dyddiad) bod angen i blant cael amgylchedd sydd yn atyniadol ac yn gwneud i blant i deimlo'n ddiogel ac yn hapus i fod yno. Hefyd, mae angen i'r lleoliad cael llefydd i blant i chwarae a dysgu'n hyderus. Wrth gynllunio dyluniad yr ystafell mae rhaid ystyried bod yr amgylchedd yn hyblyg, gan fod diddordebau ac anghenion plant yn newid trwy'r amser. Awgryma Early Years Matters (dim dyddiad) bod yr amgylchedd yn rhan hanfodol i gefnogi ac ymestyn datblygiad a dysgu. Pryd mae plant yn teimlo'n ddiogel, mae cyfle ganddyn nhw i arbrofi ac archwilio. Wrth archwilio'r maen nhw'n dod yn gyfarwydd â'r lleoliad a'r pethau maen nhw'n gallu gweld, cyffwrdd a symud. Un math o ardal am y cyfnod sylfaen yw chwarae rôl (Millwood Education, 2016). Mae chwarae rôl yn bwysig fel rhan o ddatblygiad plentyn ac mae'n datblygu cyfathrebiad creadigol, datblygiad corfforol a datrys problemau.

Noda Early Years Careers (2015) bod rôl ymarferwyr yw adnabod diddordebau, cryfderau a gwendidau plentyn. Mae hanfodol i adnabod y plant i allu cynllunio'r amgylchedd yn effeithiol i gwrdd ag anghenion a galluoedd unigol pob plentyn. Wrth gael y wybodaeth yma, mae ymarferwyr gallu gweld os mae angen mwy o adnoddau fel rhan o ddarpariaeth barhaus y gellid ychwanegu neu eu newid i hyrwyddo datblygiad y plant.

Rhestr Cyferinodi

Aussie Childcare Network (2016), *Different Types Of Observation Methods.* Ar gael o: https://aussiechildcarenetwork.com.au/articles/childcare-programming/different-types-of-observation-methods (Darllenwyd 17/01/2021)

Blincoe, K (2015), 'Risk is essential to childhood – as are scrapes, grazes, falls and panic', *The Guardian*, 14th October. Ar gael o: https://www.theguardian.com/commentisfree/2015/oct/14/risk-essential-childhood-children-danger (Darllenwyd 10/01/2021)

Early Impact (dim dyddiad), *18 Benefits of Heuristic Play*. Ar gael o: https://earlyimpactlearning.com/18-benefits-of-heuristic-play/ (Darllenwyd 15/12/2020)

Early Years Careers (2015), *The adults role in enhancing continuous provision.* Ar gael o: https://www.earlyyearscareers.com/eyc/early-years-practice/adults-role-enhancing-continuous-provision/ (Darllenwyd 17/01/2021)

Early Years Careers (2015), *Why forest school can help children's development.* Ar gael o: http://www.earlyyearscareers.com/eyc/early-years-practice/why-forest-school-can-help-childrens-development/ (Darllenwyd 11/01/2021)

Early Years Matter (dim dyddiad), *Observation, Assessment and Planning.* Ar gael o: https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/a-unique-child/planning/ (Darllenwyd 12/01/2021)

Early Years Matters (2015), *A guide to creating continuous provision.* Ar gael o: http://www.earlyyearscareers.com/eyc/early-years-practice/a-guide-to-creating-continuous-provision/ (Darllenwyd 06/01/2021)

Early Years Matters (dim dyddiad), *Enabling Environments.* Ar gael o: https://www.earlyyearsmatters.co.uk/our-services/school-and-nursery-improvement-partner/enabling-environments/ (Darllenwyd 17/01/2021)

Early Years Matters (dim dyddiad), *Indoor and Outdoor Environment.* Ar gael o: https://www.earlyyearsmatters.co.uk/our-services/school-and-nursery-improvement-partner/enabling-environments/indoor-and-outdoor-environment/ (Darllenwyd 15/01/2021)

Early Years Matters (dim dyddiad), *Play & Learning.* Ar gael o: https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/a-unique-child/play-learning/ (Darllenwyd 05/01/2021)

Early Years Resources (2018), *The Importance of Risky Play in Childhood.* Ar gael o: https://www.earlyyearsresources.co.uk/blog/2018/10/risky-play-importance/ (Darllenwyd 10/01/2021)

Encyclopaedia of Children's Health (dim dyddiad). Ar gael o: http://www.healthofchildren.com/P/Play.html (Darllenwyd 05/01/2021)

First Walkers (2016), *The importance of Play to your Child's Holistic Development.* Ar gael o: https://firstwalkers.com.au/blogs/news/the-importance-of-play-to-your-child-s-holistic-development (Darllenwyd 06/01/2021)

Forest School Training (dim dyddiad), *The learning Process.* Ar gael o: https://www.forestschooltraining.co.uk/forest-school/the-learning-process/ (Darllenwyd 11/01/2021)

Health and Safety Executive (2012), *Children's play and leisure – Promoting a balances approach.* Ar gael o: https://www.hse.gov.uk/entertainment/childrens-play-july-2012.pdf (Darllenwyd 17/02/2021)

Howard, J. a McInnes, K. (2012) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not play in emotional well-being', *Child: care, health and development,* 39 (5) tt. 737-742. Ar gael o: The impact of children's perception of an activity as play rather than not play on emotional well-being (uwtsd.ac.uk) (Darllenwyd 14/01/2021)

Kanopy Streaming (dim dyddiad), Child Observation No. 7, Time & Event Sampling. Ar gael o: https://www.kanopystreaming.com/sites/default/files/event_time_sampling.pdf (Darllenwyd 13/01/2021)

Kids Development (2018), *Freud's Theory of Developmental Phases.* Ar gael o: http://www.kidsdevelopment.co.uk/FreudsDevelopmentalTheory.html (Darllenwyd 18/01/2021)

Little Big Red Dot (2018), *Why Self-Directed Play is Important to a Child's Development.* Ar gael o: https://www.littlebigreddot.com/self-directed-play/ (Darllenwyd 18/12/2020)

McInnes, K (2013) et al. 'The nature of adult-child interaction in the early years classroom: Implications for children's perceptions of play and subsequent learning behaviour.' Ar gael ol https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/448181/mod_resource/content/1/The%20nature%20of%20adult%20child%20interaction%20in%20the%20early%20years%20classroom%20Implications%20for%20children%20s%20perceptions%20of%20play%20and%20subsequent%20learning%20behaviour.pdf (Darllenwyd 20/12/2020)

McInnes, K et al. (2011) 'Differences in practitioners' understanding of play and how this infuances pedagogy and children's perceptions of play', *Early Years*, 31:2, 121-133. Ar gael o: https://www-tandfonline-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/pdf/10.1080/09575146.2011.572870?needAccess=true (Darllenwyd 08/01/2021)

Millwood Education (2016), *Benefits of Role Play in Early Years.* Ar gael o: https://www.millwoodeducation.co.uk/blog/post/07/2016/benefits-of-role-play-in-early-years (Darllenwyd 15/01/2021)

Muddy Days Blog (2020), *What Are the Benefits of Forest School?* Ar gael o: https://www.muddypuddles.com/blog/10-benefits-forest-schools/ (Darllenwyd 11/01/2021)

National Occupational Standarads (dim dyddiad), *Analyse and support self-directed play in line with current playwork theories* Ar gael o: https://www.sqa.org.uk/files/aq/J0KE04.pdf (Darllenwyd 16/12/2020)

NHS (2018), *Why is play important.* Ar gael o: https://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/why-play-is-important/ [Darllenwyd 09/12/2020]

Nursery World (2006), *Observing children.* Ar gael o: https://www.nurseryworld.co.uk/news/article/observing-children (Darllenwyd 08/01/2021)

Play Wales (2014), *What is play and why is it important.* Ar gael o: https://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/what%20is%20play%20and%20why%20is%20it%20important.pdf [Darllenwyd 09/12/2020]

Play Wales (2018), *A playworkers guide to risk.* Ar gael o: https://playwales.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/A%20playworkers%20guide%20to%20risk.pdf (Darllenwyd 17/01/2021)

Play Wales (dim dyddiad), *Play and Challenge (Risk).* Ar gael o: https://playwales.org.uk/eng/playandchallenge (Darllenwyd 11/01/2021)

Play Wales (dim dyddiad), *Play and Challenge.* Ar gael o: https://www.playwales.org.uk/eng/playandchallenge (Darllenwyd 10/01/2021)

Playful Childhoods (dim dyddiad), *Risk in Play – possibilities and opportunities.* Ar gael o: https://www.playfulchildhoods.wales/Blog/blog-risk-in-play-timgill#:~:text=Risk%20in%20play%20%E2%80%93%20possibilities%20and%20opportunities%20Tim,mistakes.%20Children%20hunger%20for%20a%20taste%20of%20freedom. (Darllenwyd 11/01/2021)

Pop Up Play Adventure (2015), *The Amazing Benefits of Self-Directed Play.* Ar gael o: http://www.beactivekids.org/assets/pdf/MorganLeichterSaxby.pdf (Darllenwyd 18/12/2020)

Resources for Early Years (dim dyddiad), *Early Childhood Assessment.* Ar gael o: http://resourcesforearlylearning.org/fm/early-childhood-assessment/#:~:text=Childhood%20assessment%20is%20a%20process%20of%20gathering%20information,critical%20part%20of%20a%20high-quality%2C%20early%20childhood%20program. (Darllenwyd 08/01/2021)

Sensory Treasures (dim dyddiad), *Treasure Baskets.* Ar gael o: https://sensorytreasures.co.uk/treasure-baskets/ (Darllenwyd 15/12/2022)

Study Queries (dim dyddiad), *Piaget vs Vygotsky: Theories, Similarities, Differences & More.* Ar gael o: https://studyqueries.com/piaget-vs-vygotsky/ (Darllenwyd 18/01/2021)

Teach Early Years (dim dyddiad), *Danish Forest Schools.* Ar gael o: https://www.teachearlyyears.com/enabling-environments/view/danish-forest-schools#:~:text=The%20Scandinavian%20approach%20to%20using%20the%20outdoors%20as,for%20young%20children%20to%20develop%20and%20learn%20outdoors. (Darllenwyd 11/01/2021)

Teach Early Years (dim dyddiad), *Making Observations.* Ar gael o: https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/making-observations (Darllenwyd 12/01/2021)

UK essays (1970), *The differences between Piagets and Vygotskys theroies.* Ar gael o: https://www.ukessays.com/essays/psychology/the-differences-between-piagets-and-vygotskys-theories-psychology-essay.php (Darllenwyd 18/01/2021)

Webanywhere (2019), *Different types of observation methods in early years.* Ar gael o: https://www.webanywhere.co.uk/blog/2019/05/different-types-observation-methods-early-years/#:~:text=%20What%20are%20the%20best%20types%20of%20observation,sentences%20detailing%20important%20events%2C%20behaviours%20and...%20More%20 (Darllenwyd 12/01/2021)

Welsh Government (2015), *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.* Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/4f222e31-85c2-407b-9760-5ed8bd0b9e48/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen.pdf (Darllenwyd 07/01/2021)